**Fedri di ddweud faint o'r gloch yw hi?**

Ceisiwch ofyn yn aml i'ch plentyn ddweud faint o'r gloch yw hi i'r 5 munud agosaf. Defnyddiwch gloc â bysedd yn ogystal â chloc neu watsh ddigidol.
Gofynnwch hefyd:

- Faint o'r gloch fydd hi un awr o nawr?
- Faint o'r gloch oedd hi awr yn ôl?

Amserwch eich plentyn wrth wneud gwahanol dasgau, e.e.

- paratoi ar gyfer mynd i'r ysgol;
- tacluso ystafell wely;
- dweud tabl 5, tabl 10 neu dabl 2 …

Gofynnwch i'ch plentyn ddyfalu faint o amser fydd e/hi yn ei gymryd i wneud rhywbeth. A allant wella ar yr amser hwnnw wrth wneud hynny eto?

**Ffracsiynau**

Defnyddiwch 12 botwm, neu glipiau papur neu ffa sych neu …

- Gofynnwch i'ch plentyn ddod o hyd i **hanner** y 12 peth.
- Wedyn dod o hyd i **chwarter** yr un grŵp.
- Dod o hyd i **draean** y grŵp i gyd.

Ailadroddwch y gweithgaredd gan ddefnyddio rhifau eraill.



**Trefnu, trefnu!**

- Y ddau ohonoch i dynnu 6 chylch mewn rhes.
- Cymerwch dro.
- Rholiwch ddau ddis a gwnewch rif dau ddigid (gweler gêmau Rhif).
- Ysgrifennwch eich rhif yn un o'r cylchoedd. Pan fydd y rhif wedi'i ysgrifennu yn y cylch allwch chi ddim ei newid na'i symud!
- Y cyntaf sy'n cael y chwe rhif yn eu cylchoedd mewn trefn sy'n ennill.

# Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 3

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn




## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plant

# Targedau - Blwyddyn 3 1

**Erbyn diwedd Blwyddyn 3, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu …**

☐ Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1000 a'u rhoi yn eu trefn. Gwybod beth yw gwerth pob digid.

☐ Cyfrif ymlaen neu yn ôl fesul deg neu fesul gant o unrhyw rif dan 1000, e.e. 462, 472, 482 … neu 462, 562, 662…

☐ Gwybod ffeithiau adio a thynnu hyd at 20 ar eu cof, e.e. 4 + 16 = 20, 12 - 8 = 4.

☐ Datrys symiau fel 56 + 29, a 97 - 51 yn eu pen.

☐ Gwybod tabl 2, 3, 5, 6 a 10 ar eu cof.

☐ Gwneud rhannu syml, fel 27 ÷ 5.

☐ Darganfod ffracsiynau syml, fel 1⁄2, 1⁄3, 1⁄4, 1⁄5, 1⁄10 siapiau a rhifau.

☐ Dweud faint o'r gloch yw hi i'r 5 munud agosaf.

☐ Defnyddio **£.c**. e.e. gwybod mai £2 a 4c yw £2.04.

☐ Datrys problemau rhif syml ac esbonio sut y cafwyd yr ateb.

☐ Adnabod onglau sgwâr a llinellau cymesuredd.

☐ Esbonio graff syml.

## Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 3.

Mae'n bosib bod y targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai na fydd plentyn sy'n gallu cyfrif hyd at 1000 yn gwybod yr hyn y mae pob digid yn ei gynrychioli. Er enghraifft, yn y rhif 784, 80 yw gwerth yr '8', ac nid 8 yn unig.

## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

### Gêmau rhif

Rholiwch ddau ddis. Gwnewch rif dau ddigid, e.e. os ydych chi'n rholio 6 a 4, gallai hwn fod yn 64 neu'n 46. Os nad oes dau ddis gennych chi, rholiwch yr un dis ddwywaith. Gofynnwch i'ch plentyn wneud un neu fwy o'r gweithgareddau isod.



- Cyfrif ymlaen neu yn ôl o bob rhif fesul deg.
- Adio 19 at bob rhif yn eu pen. (Ffordd gyflym i wneud hyn yw adio 20 a thynnu 1.)
- Tynnu 9 o bob rhif (Ffordd gyflym i wneud hyn yw tynnu 10 ac adio 1 yn ôl.)
- Dyblu pob rhif.